Prifysgol Cymru

YSGOL ASTUDIAETHAU TRWY'R GYMRAEG

Dyddiad: 30 Ionawr 2008

Lle: Siambr y Cyngor

Presennol: Dr Llion Jones (Cadeirydd), Mr. Geraint George, Mr Ifor Gruffydd, Ms Meri Huws, Dr. Lowri Hughes, Miss. Gwenith Hughes, Mrs. Bethan Wyn Jones, Mr Eifion Lloyd Jones, Mrs. Delyth Murphy, Mrs. Mairwen Owen, Dr Dafydd Trystan, Miss Bethan Williams, Dr. Catrin Haf Williams, Yr Athro Gerwyn Wiliams, Dr. Prysor Williams

Ymddiheuriadau: Dr. Jason Walford Davies, Mr. Dewi Wyn Jones, Dr. Gwyn Lewis, Dr. Delyth Morris, Dr. Robert Pope, Yr Athro Huw Pryce, Dr. Enlli Thomas, Mrs. Cheryl Wright, Dr. Einir Young.

1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd Dr Lowri Hughes, Swyddog Datblygu a Hyrwyddo'r Gymraeg a Miss Gwenith Hughes o Ysgol yr Amgylchedd ac Adnoddau Naturiol i'w cyfarfod cyntaf o'r Ysgol.

2. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod yr ysgol a cynhaliwyd ar 18 Hydref 2007 fel cofnod cywir.

3. MATERION YN CODI

(i) Eitem 3(ii) – Datblygiadau gan y Colegau

Adroddwyd bod angen ymateb gan y coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad i'r cais am ddatblygiadau cyfrwng Cymraeg.

Cytunwyd gofyn i Ms Meri Huws a Dr Llion Jones geisio cael ymateb gan Bennaeth y Coleg. *(Gweithredu MH/LLJ)*

(ii) Eitem 3(iv) – Cyflwyniadau

Nodwyd fod gwahoddiad wedi'i estyn i Mrs Cheryl Wright o'r Adran Ystadau i roi cyflwyniad ar ddyfodol Neuadd John Morris Jones ond yn anffodus nid oedd yn gallu bod yn bresennol.

Cytunwyd:

(i) gofyn iddi ddod i gyfarfod nesaf yr ysgol.

(ii) gofyn i aelod o'r Ganolfan Rheolaeth roi cyflwyniad ar y datblygiadau yn y Ganolfan. *(Gweithredu: ER)*

(iii) Eitem 4(ii) – Arian Ehangu Cyfranogiad
Adroddwyd bod arian Ehangu Cyfranogiad, yn cynnwys elfennau cyfrwng Cymraeg wedi'i ddosbarthu. Roedd ystod y ceisiadau braidd yn siomedig a bwriedir gwahodd ail-geisiadau ar gyfer gweddill yr arian. *(Gweithredu MH)*

4. ADRODDIAD TASIG

Adroddwyd gan Meri Huws am y materion a ganlyn:

(i) Mae ystadegau'r Swyddfa Gynllunio ar gyfer 2006/07 yn dangos cynnydd o 20% yn nifer y CALLau Cyfrwng Cymraeg gyda'r nifer wedi codi o 515 i 620 ers 2005/06. Mae cynnydd hefyd o 104 yn nifer y siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Bydd yr Ysgolion yn edrych yn fanwl ar y ffigyrau ac yn arolygu'r rhestr modiwlau.

(ii) Bydd 20 o fyfyrwyr ym maes yr Amgylchedd yn cael eu noddi eleni o dan y Cynllun AmNawdd gyda chyllid gan Asiantaeth yr Amgylchedd, Comisiwn Coedwigaeth a'r Cyngor Gwlad.

(iii) Gobeithir y bydd Bwrdd yr Iaith yn Cymeradwyo Cynllun Iaith y Brifysgol erbyn yr haf.

(iv) Mae'r Brifysgol mewn ymateb i gais gan y Cyngor Cyllido, (trwy HESG), wedi datgan diddordeb mewn arwain y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y meysydd pwnc a ganlyn:

Cerddoriaeth
Diwinyddiaeth
Astudiaethau Busnes
Gwyddorau Cymdeithas
Iechyd
Seicoleg
Cemeg
Gwyddorau Cyfrifiadurol a Pheirianneg

Datganwyd diddordeb hefyd mewn bod yn bartneriaid arweiniol yn y meysydd a ganlyn:

Hanes ac Archaeoleg
Ieithyddiaeth
Ieithoedd Modern

Bydd HESG yn penderfynu ar y prif ddarparwyr ym mis Chwefror ac wedyn gellir dechrau ar y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu ar gyfer y gwahanol feysydd. Bydd y sefyllfa yn glir ymhob maes erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.

O ran y meysydd sy'n cael eu harwain trwy baneli rhwydwaith nodwyd bod cofnodion y paneli i'w gweld ar wefan y Ganolfan Addysg Uwch Gyfrwng Cymraeg.

Cytunwyd y dylid hysbysu holl staff cyfrwng Cymraeg y Brifysgol o gyfeiriad gwefan y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. *(Gweithredu: ER/LLJ)*

(v) Mae angen i'r Ysgolion gyflwyno ceisiadau am Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau erbyn 11 Chwefror 2008.

(vi) Cafwyd llythyr gan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn atodi adroddiad yr ymgynghorwyr (London Economic) ar yr adolygiad o gynllunio ar gyfer darpariaeth hyfforddi athrawon cyfrwng Cymraeg. Bydd angen i'r Cynulliad wneud gwaith pellach a chasglu mwy o ddata.

5. DYFODOL NEUADD JOHN MORRIS JONES

1. Adroddwyd bod Mrs Cheryl Wright, Adran Ystadau wedi anfon ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod. Fodd bynnag roedd hi wedi nodi y bydd Neuadd John Morris Jones yn aros yn ei safle presennol yn y tymor byr ac wedi rhoi sicrwydd y bydd neuadd Gymraeg yn y dyfodol. Roeddent hefyd wedi ceisio cael arbenigwyr i ddarganfod achos yr ogla drwg yn y neuadd ond heb lwyddiant.

2. Cafwyd y sylwadau a ganlyn gan yr aelodau:

- Mae angen hyrwyddo bywyd cymdeithasol y neuadd yn y dyfodol.
- Mae llai o fyfyrwyr yn dymuno aros yn y neuadd oherwydd ei chyflwr gwael ac felly mae llai o gymuned Gymraeg yno i gynnal ei gilydd.
- Mae marchnata a recriwtio yn anodd eleni ac mae sefyllfa'r neuadd yn wrth gynhyrchiol.
- Efallai y byddai'n bosib gwneud cais i neilltuo darn o un o'r neuaddau hunan-arlwyo fel neuadd Gymraeg yn ogystal â JMJ yn y tymor byr.

Cytunwyd:

(i) sefydlu Is-Grŵp yn cynnwys Dr Catrin Haf Williams, Miss Sioned Medi, Miss Bethan Williams a'r Athro Gerwyn Wiliams i edrych i mewn i'r mater ac adrodd yn ôl i'r ysgol. *(Gweithredu: CHW/SM/BW/GW)*

(ii) gofyn i Mrs Cheryl Wright ddod i drafod y mater yng nghyfarfod nesaf yr Ysgol. *(Gweithredu: ER)*

6. DIWEDDARIAD GAN DR DAFYDD TRYSTAN, RHEOLWR DATBLYGU, CANOLFAN ADDYSG UWCH CYFRWNG CYMRAEG

1. Llongyfarchodd Dr Dafydd Trystan y Brifysgol ar y cynnydd yn y nifer myfyrwyr cyfrwng Cymraeg ac am sicrhau'r data cywir. Mae Bangor bron â chyrraedd y sefyllfa lle mae'r CALLau cyfrwng Cymraeg yn 1/3 o'r rhai sy'n siarad Cymraeg. Dylid anelu at godi nifer y CALLau i gyfateb i hanner y rhai sy'n cofrestru fel siaradwyr Cymraeg.

2. Yn genedlaethol mae'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg yn ffocysu ar waith y Paneli Rhwydwaith. Bydd hyn yn sail ar gyfer y 5-10 mlynedd nesaf ac mae arian ar gael i gefnogi'r cynlluniau megis £90,000 ar gyfer pob un o'r paneli Blaenoriaeth. Yn ogystal bydd arian ar gael wedyn am dair mlynedd pellach.

3. Yn ogystal â'r Paneli Rhwydwaith mae Is-Grŵp newydd yn edrych ar e-ddysgu ac mae Julie Snelson o'r Adran Gwasanaethau Technoleg yn aelod ohono. Un syniad sydd wedi'i grybwyll yw'r posibilrwydd o sefydlu caffi dysg a fydd yn boblogaidd ymysg y myfyrwyr ac a fydd yn dangos ochr gymunedol/gymdeithasol i ddysgu.

4. Diolchodd y Cadeirydd Dr Trystan am ei gyflwyniad.
Cytunwyd gofyn i'r Is-Grŵp sy'n edrych ar ddyfodol Neuadd John Morris Jones drafod y syniad a lleoliad posib ar gyfer caffi dysg.

7. ETHOL CADEIRYDD I'R YSGOL

Adroddwyd mai cyfnod dros dro oedd Cadeiryddiaeth yr Ysgol gan Yr Athro Densil Morgan a'i fod bellach wedi gorffen y swydd ac i ffwrdd ar gyfnod Sabothol.

Mae angen ethol cadeirydd newydd i'r Ysgol o blith aelodau'r staff academaidd.

Cytunwyd gwahodd enwebiadau o blith y staff academaidd i fod yn gadeirydd yr ysgol *(Gweithredu: ER)*.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 2.15 o'r gloch, ddydd Llun, 21 Ebrill 2008 yn Siambr y Cyngor.